



Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru a Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd
Ceredigion**

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru
Parc Menter Quinton Hazell
Ffordd Glan y Wern
Bae Colwyn
LL28 5BS**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27 Mehefin 2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru a Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd Ceredigion

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo ailgofrestru'n ffurfiol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru a Cheredigion yn rhoi cymorth i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain; ac yn cynnig seibiant i'r rhai sy'n gofalu am berthynas. Mae'r asiantaeth hefyd yn trefnu sesiynau grŵp cefnogol a llawn gwybodaeth i ofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal. Mae gofalwyr yn cael budd o seibiant rheolaidd a'r cyngor a'r cymorth y maent yn eu cael gan staff a gofalwyr yn ystod y sesiynau grŵp y maent yn cymryd rhan ynddynt. Mae'r rhai sy'n derbyn gofal yn mwynhau'r cyfeillgarwch a'r rhyngweithio cymdeithasol y mae'r sesiynau grŵp yn eu cynnig iddynt, a hefyd gan y staff sy'n cadw cwmni iddynt yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn hapus iawn gyda phob agwedd ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Maent yn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'r staff, sy'n gyfeillgar, yn garedig ac yn barchus yn eu barn nhw.

Mae'r staff gofal yn cyrraedd yn brydlon a bob amser yn aros am y cyfnod disgwylidig. Er mai rhyngweithio cymdeithasol a chyfeillgarwch yw prif nod y cymorth a roddir mewn sawl achos, cadarnhaodd y bobl fod y staff yn mynd yr ail filltir, gan wneud yn siŵr nad oes dim byd ychwanegol y mae angen ei wneud cyn iddynt adael. Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu gofal, ac maent yn nodi'r hyn y maent am ei wneud a sut y maent am i'w gofal gael ei ddarparu.

Mae'r darparwr yn ceisio barn y bobl am y gwasanaeth. Mae'n cysylltu â'r bobl i fesur eu boddhad ac yn sicrhau y caiff unrhyw newidiadau gofynnol eu gwneud. Mae llawer o'r staff wedi gweithio i'r sefydliad ers cryn amser; maent yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr a'u cefnogi'n dda gan y rheolwyr.

Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu gofal. Maen nhw a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio ac adolygu'r cymorth y maent ei gael. Bydd y rheolwr yn ymweld â'r unigolyn cyn iddo ddechrau cael gofal er mwyn cytuno ar yr hyn sydd ei angen. Gellir darparu gwybodaeth am y gwasanaeth yn Gymraeg; mae staff gofal a staff swyddfa sy'n siarad Cymraeg ar gael i gyfathrebu â'r bobl yn eu dewis iaith. Mae'r rheolwr yn cysylltu â'r bobl i wneud yn siŵr eu bod yn fodlon ar y cymorth, gan wneud newidiadau i'w cynllun gofal os oes angen. Rhannodd y bobl enghreifftiau o'r ffordd y mae'r staff gofal wedi rhagori ar eu disgwyliadau, gan feithrin cydberthnasau cryf, llawn ymddiriedaeth, ac annog llawer mwy o annibyniaeth. Maent yn rhoi cymorth sydd wedi'i deilwra at ddewisiadau'r unigolyn ar unrhyw ddiwrnod penodol.

Mae iechyd a llesiant y bobl wrth wraidd y cymorth a roddir. Mae'r staff gofal yn gweithredu'n brydlon os oes unrhyw bryderon ynghylch iechyd drwy gysylltu â'r rheolwr yn y swyddfa, a fydd yn rhoi gwybod i'r teulu neu'n cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol i drefnu ymweliadau cartref. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff wedi rhoi gwybodaeth iddynt ac wedi eu cyfeirio at wasanaethau perthnasol, a bod siaradwyr gwadd yn dod i siarad yn y sesiynau grŵp am iechyd, adnoddau anabledd a materion diogelwch. Roedd y bobl yn canmol y parhad gofal; mae hyn yn golygu bod y staff yn adnabod y bobl yn dda, eu bod yn ymgysylltu â nhw mewn ffordd gadarnhaol, a'u bod yn gallu annog y bobl i fod yn annibynnol.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag y risg o niwed drwy'r hyfforddiant a roddir i bob aelod o staff gofal a thrwy bolisiau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ei hun. Mae'r cyfarfodydd un i un â'r staff yn rhoi cyfle iddynt fyfyrion ar eu hymarfer a thrafod unrhyw faterion a heriau, fel y gellir nodi unrhyw faterion diogelu posibl.

Mae llesiant cymdeithasol y bobl yn bwysig i'r gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn meithrin cydberthnasau effeithiol â'r bobl y maent yn eu cefnogi; maent yn dysgu am yr hyn sy'n gwneud y bobl yn hapus ac yn ymdrechu i'w helpu i ddilyn eu diddordebau. Mae'r bobl yn mwynhau rhyngweithio'n gymdeithasol ag eraill sydd ag anghenion tebyg mewn amgylchedd grŵp a drefnir bob wythnos. Mae gofalwyr sy'n berthnasau'r bobl yn cael budd o rannu eu profiadau wrth gymdeithasu â gofalwyr eraill mewn sesiynau grŵp tebyg a drefnir. Mae'r gofalwyr sy'n berthnasau yn deall sut mae eu perthnasau'n treulio eu hamser pan fyddant yn cael eu cefnogi gan y staff. Maent yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus yn gadael eu perthynas yng ngofal y staff.

Gofal a Chymorth

Mae'r darparwr yn ystyried barn yr unigolyn, ei deulu a gweithwyr proffesiynol eraill wrth asesu'r gofal sydd ei angen. Bydd rhywun o'r gwasanaeth yn ymweld â'r unigolyn yn ei gartref; dywedwyd wrthym fod yr ymweliad cyntaf hwn wedi bod yn ddefnyddiol ac yn effeithiol iawn i rai pobl. Roeddent wedi cael eu cyfeirio at asiantaethau a allai eu helpu, a'u cynghori ar sut i wneud eu cartref yn fwy diogel a sut i gael budd-daliadau lles. Dywedodd y bobl wrthym y gallant godi'r ffôn unrhyw bryd i ofyn am gael newid y gwasanaeth y maent yn ei gael, neu ofyn am wasanaeth ychwanegol.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r safon sydd ei hangen arnynt drwy wasanaeth sydd wedi'i ddylunio mewn ymgynghoriad â'r bobl, eu perthnasau agos a gweithwyr proffesiynol. Gwelsom fod rhai cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth fel hanes yr unigolyn, hanes ei deulu, diddordebau a gwaith blaenorol. Maent wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n helpu'r staff gofal i gael darlun clir a chofiadwy o'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn y maent yn ei gefnogi. Mae'r rheolwr yn anelu at sicrhau y caiff pob cynllun ei ysgrifennu yn y ffordd hon yn y dyfodol, a dechreuodd ddiweddarau'r cynlluniau yn unol â hyn yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod un unigolyn yn mwynhau cerdded a gwneud posau, a bod hyn wedi dod yn rhan reolaidd o'i ofal. Mae'r gofalwyr yn deall cryfderau'r bobl, a'r hyn sydd o ddiddordeb iddynt ac yn eu cymell. Roedd pawb yn canmol y gofal, gan ddweud ei fod yn *'lifeline'* ac yn *'invaluable service'*. Roedd y bobl yn cytuno bod y staff gofal bob amser yn mynd yr ail filltir wrth roi cymorth. Maent yn barchus ac yn trin y bobl ag urddas.

Caiff cynlluniau eu cadw'n gywir drwy eu hadolygu bob tri mis, neu'n gynt os oes angen. Dengys cofnodion fod y rheolwr yn ceisio barn pawb sy'n ymwneud â gofal unigolyn wrth adolygu ei gynllun gofal. Caiff unrhyw ddiwygiadau eu nodi, a dywedodd yr holl staff gofal wrthym eu bod yn gwybod pa ofal sydd ei angen cyn iddynt fynd i roi cymorth i unrhyw unigolyn.

Mae'r staff gofal yn monitro iechyd a llesiant y bobl y maent yn gofalu amdanynt a dengys cofnodion y byddant yn cymryd camau i roi gwybod i'r teulu os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Maent yn rhoi arweiniad i'r bobl ac yn eu cyfeirio at fannau a all eu helpu. Mae sesiynau grŵp effeithiol a gwerthfawr yn cynnwys siaradwyr gwadd i gynghori ar faterion iechyd a diogelwch. Dywedodd rhywun a oedd yn mynychu'r sesiynau grŵp, *'we come here, share our experiences, and laugh together. A problem shared is a problem halved'*. Mae gan y staff sy'n gweithio yn yr asiantaeth, boed yn staff gofal neu'n weithwyr swyddfa, gyfoeth o wybodaeth a phrofiad a dywedwyd, *'if they don't know the answer, they will find someone who does.'*

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n ddidrafferth a bod y bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau y caiff archwiliadau o agweddau amrywiol ar weithrediad y gwasanaeth eu cwblhau. Llunnir adroddiad yn nodi'r canfyddiadau ac yn dangos yr hyn sy'n gweithio'n dda ac unrhyw feysydd y mae angen eu gwella. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn croesawu syniadau ac yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu'n dda, gan nodi rhagor o feysydd i gefnogi'r bobl yn effeithiol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, agorwyd y ganolfan dementia ar safle'r swyddfa ac, oherwydd y galw mawr, mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru a Cheredigion wedi agor rhagor o ganolfannau dementia ledled y gogledd, lle y gall pobl alw heibio am gymorth. Mae swyddogion llesiant wedi'u penodi i weithio gyda gofalwyr sy'n rhieni.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod â gwasanaethau cymdeithasol lleol yn fisol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau, fel bod eraill yn dod i wybod am y gwasanaeth, ac yn cael budd ohono. Mae rhai trefniadau ffurfiol ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y gwasanaeth bron pob dydd, ac mae'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gydag asiantaethau eraill sy'n eu cefnogi, er mwyn ceisio eu barn. Caiff arolygon eu dosbarthu hefyd.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff wedi'u hyfforddi mewn amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rôl. Dilynir gweithdrefnau recriwtio diogel a chaiff staff gofal eu fetio'n briodol. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n sicrhau bod unrhyw un sy'n rhoi cymorth i bobl yn gymwys ac yn gymwysedig i wneud hynny. Roedd y bobl yn canmol profiad, agwedd ac arbenigedd y staff gofal, gan ddweud eu bod yn *'incredible'*.

Caiff amser teithio rhwng ymweliadau cartref ei ystyried wrth lunio amserlenni dyddiol. Cadarnhaodd y bobl fod y staff bob amser yn cyrraedd ar amser a'u bod yn aros am y cyfnod cyfan a neilltuwyd i bob ymweliad. Dywedodd y bobl wrthym nad yw'r staff byth ar frys a'u bod bob amser yn gofyn a oes angen unrhyw beth arall arnynt cyn gadael. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi; maent wedi cael codiad cyflog, a chaiff adborth gan bobl sy'n cael gwasanaethau ei rannu â nhw er mwyn iddynt wybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd y staff fod y rheolwr yn *'very kind and caring'*, they are *'always at the end of the phone when you have an issue'*. Mae rhai o'r staff wedi gweithio i'r asiantaeth ers cryn amser, a dywedasant na fyddent yn

gweithio yn unrhyw le arall. Maent yn mwynhau eu gwaith, ac yn parchu ac yn gwerthfawrogi eu cyflogwr.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 14/08/2023